**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **NOS LUN, 8fed EBRILL, 2024,** yng Nghanolfan Bryncroes o 7.30 y.h. hyd 8.45 y.h.
Presennol: Y Cynghorydd Siôn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Gwenan Griffiths, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Efan Thomas, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan J. Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)
Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Michael Strain

123. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**
**Estynnodd** y Cadeirydd groeso i'r aelodau i'r cyfarfod.

124. **SYSTEM SGORIO DARPAR DENANTIAID I DAI CYMDEITHASOL**
**Estynnodd** y Cadeirydd groeso i Dylan Bryn Roberts i'r cyfarfod i egluro sut 'roedd y system sgorio darpar denantiaid i dai cymdeithasol yn cael ei weithredu. Rhoddodd amlinelliad o'r gwaith a wneir ganddo lle mae'n edrych i fewn at anghenion pobl leol, cymdeithasol a thai rhent. Soniodd ei fod yn bwysig fod y Gymraeg yn cael ei gosod fel amod wrth ddarparu system sgorio ar gyfer rhentu tai. Nododd fod yr amod iaith wedi cael ei gollwng gan Gyngor Gwynedd. Addawodd y byddai'n dod yn ôl i gyfarfod y Cyngor ddiwedd y flwyddyn.
**Diolchodd** y Cadeirydd i'r gwr gwadd am ei sylwadau ac y byddai'r aelodau yn edrych ymlaen at ei groesawu eto yn nes at ddiwedd y flwyddyn.

**125. DATGAN BUDDIANT PEROSONOL**
Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

126. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 11eg MAWRTH, 2024**
**Cyflwynwyd**, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 11eg Mawrth, 2024. (Cynigiwyd gan y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Carys H. Evans gyda phawb yn cefnogi).
**Eitemau yn codi o'r cofnodion – eitem 118 – Llanastr**
**Derbyniwyd** ymateb Rheolwr Gwasanaethau Gwastraff Cyngor Gwynedd fel a ganlyn:
"Gallaf gadarnhau fod ein arweinyddion tîm wedi trafod y gŵyn gyda'r criwiau casglu. Mae cyfarwyddyd clir wedi ei roi unwaith yn rhagor iddynt gau'r drysau llwytho pan yn teithio dros 20 m.y.a. neu ble mae pellter rhwng tai yn fwy na 100m. Trefnwyd i'n criw glanhau strydoedd godi unrhyw eitemau a oedd wedi eu colli ar y pryd. Mae'r arweinyddion tîm hefyd wedi bod yn monitro fod y drysau yn cael eu cau ac nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gwynion pellach o'r ardal ers hynny."
**Nodwyd** yr atebiad.
**Eitem 123 – Awdurdod i dalu**
**Cyfeiriwyd** at y penderfyniad i dalu'r Clarc yn fisol oherwydd gofyniad yr HMRC – oherwydd costau cynyddol y banc a.y. awgrymodd Y Cynghorydd Carys H. Evans y byddai'n gallu gosod 'nil return' am ddau fis yn olynol ac yna talu ar y trydydd mis fel o'r blaen. Byddai hyn yn dderbyniol gan yr HMRC. Diolchwyd am y cyngor a gofynnwyd i'r Cynghorydd Evans wneud hynny.

127. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Cyflwynwyd** y ceisiadau a ganlyn:
**(a)** Cais C24/0229/32/DT – codi modurdy dwbl yn Rhyd Goch, Botwnnog.
**(b)** Cais C24/205/32/LL – cais llawn i godi 18 ty fforddiadwy gyda datblygiadau cysylltiol – tir Cae Capel, Botwnnog. Yn y cyswllt hwn cyflwynwyd, ar gais Y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd, lythyr gan Robat Williams ar ran Cae Capel Cyf. (copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen).

**Penderfynwyd**
(1) Cefnogi cais o dan gymal (a) uchod.
(2) Gwrthwynebu cais o dan gymal (b) uchod ar sail:
1. Diffyg galw.
2. Gorddatblygu.
3. Perygl i'r Gymraeg a gwead y gymuned
4. Gwasanaethau iechyd lleol – dan ei sang fel ag y mae hi ac yn amhosib cael apwyntiad i weld arbenigwyr iechyd.
5. Carffosiaeth – Mae safle trin carffosiaeth Botwnnog ar ei lawn gynhwysedd fel ag y mae hi ac nid oes y gallu i drin carffosiaeth ychwanegol. Nid yw cynllun y datblygwr i gynllunio system o atal ac arllwys gwastraff carffosiaeth o'r datblygiad arfaethedig yma yn ddigonnol gan na fyddai yn gallu dal y gwastraff ychwanegol mewn cyfnodau o dywydd gwlyb. (Mae newid hinsadwdd yn dangos y bydden yn cael cyfnodau gwlyb estynedig). Mi fyddwn yn pasio'r pryder yma ymlaen i Gyfoeth Naturiol Cymru gan fod gwarchod ein hamgylchedd yn bwysig iawn i ni fel trigolion yr ardal ac yn siwr ni fydd pobl Abersoch, sydd yn dibynnu ar y diwydiant twristiaid, yn hoffi gweld carthion o'r datblyiad yma yn cael ei olchi i lawr yr Afon Soch. Gall hyn effeithio ar iechyd cyhoeddus a safon dŵr nofio, y traeth a iechyd a lles y bobl.
6. Addysg – bydd unrhyw gynnydd mewn disgyblion i'r Ysgol Gynradd neu'r Uwchradd sydd yn ddi-Gymraeg yn cael effaith pellgyrhaeddol ar addysg ein pobl ifanc yn lleol. Nodwyd eisioes yr effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.
7. Mynediad – Mae pryder am ddiogelwch trigolion pentref Botwnnog a teithwyr mewn cerbydau gan bod y safle ar draws y ffordd i Feddygfa brysur ac o fewn llai na chan llath i dro 90 gradd yn y brif ffordd rhwng Pwllheli ac Aberdaron ble mae Rhiw yn ymuno. Mae hefyd Capel a Festri Capel Rhyd Bach ar y gornel ar draws i'r Feddygfa.
8. Hyfdra – Petai'r cais yn cael ei dderbyn, mewn unrhyw ffurf, bydd yn mynd yn erbyn ewyllys trigolion lleol yn ogystal a gwrthwynebiad cynghorau cymuned eraill o fewn yr ardal. Cefnogi ein trigolion a diogelu ein iaith a'n diwylliant ddylai nôd Cyngor Gwynedd fod nid gwanio ein hiaith a'n diwylliant.

**Nodyn** – roedd y Cadeirydd eisoes wedi paratoi llythyr i'w anfon i'r Adran Cynllunio a chadarnhawyd fod y Cyngor yn derbyn y sylwadau – dyfyniad o'r llythyr hwnnw yw'r cymal 1. – 8. uchod.

**Nodyn pellach** – pleidleisio pob un o'r aelodau namyn un i wrthwynebu'r cais.

128. **MATERION FFYRDD**
Ni dderbyniwyd unrhyw fater i'w anfon ymlaen.

129. **CEISIADAU AM GYFRANIADAU ARIANNOL**
**Cyflwynwyd** ceisiadau gan Sefydliadau/Mudiadau a.y. i ystyriaeth y Cyngor.
**Penderfynwyd** cyfrannu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Clwb Snwcer Sarn | £200 (200824) |

(Datganodd Y Cynghorydd Gareth Williams ddiddordeb yn y cais ac ymneilltuodd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio).

| | |
|---|---|
| Pwyllgor Cylch Meithrin Pont-y-Gof | £200 (200825) |
| Pwyllgor Rhanbarth Urdd Gobaith Cymru Eryri | £50 (200826) |
| Radio Ysbyty Gwynedd | £50 (200827) |

**Yn y cyswllt hwn,** adroddodd y Clarc iddi anghofio rhoi cais Cyfeillion Mynwent Llandegwnning gerbron cyfarfod mis Ionawr o'r Cyngor er iddi ymrwyo i'r Cyfeillion i hynny. Yn wyneb hyn, awdurdodd y Cadeirydd i £125 (siec 200823) gael ei dalu cyn diwedd y flwyddyn ariannol 2023/24 a gwnaed hynny. Gofynnwyd i'r Cyngor gadarnhau'r trefniant a wnaed a **phenderfynwyd** yn unfrydol gefnogi'r camau gymerwyd gan y Cadeirydd.

**Penderfynwyd** ymhellach peidio cyfrannu i Theatr Bara Caws.

## 130. DIGWYDDIADAU 'TAI AR DAITH'

**Nodwyd** fod digwyddiad 'Tai ar Daith' yn cael ei gynnal yn Ysgol Glan y Mor, Pwllheli, ar 2ail Mai, 2024 rhwng 4.30 y.p. a 7.00 y.h. ac fod croeso i unrhyw un droi i fewn.

## 131. ARCHWILIO'R CYFRIFON

**Penderfynwyd** penodi Luned Fôn Jones, Rheolwr Archwilio, Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd, fel Archwiliwr Mewnol i archwilio cyfrifon y Cyngor am 2023/24.

## 132. AWDURDOD I DALU

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cwmni Yswiriant Zurich | £880.52 (siec 200828) |

Cadarnhau taliad a wnaed drwy awdurdod y Cadeirydd i Rhys D. Williams £40.00 (siec 200820) am lanhau o amgylch Ffynnon Fair, Bryncroes, er galluogi'r taliad fynd i'r flwyddyn ariannol 2023/24. **Penderfynodd** y Cyngor yn unfrydol gefnogi'r camau gymerwyd gan y Cadeirydd.

Yr un modd awdurdodd y Cadeirydd i daliad gael ei wneud i J.A. Pozzi £96.00 (siec 200822) am farbio Llwybr Bach, Botwnnog yn unol a chais y Cyngor ym mis Mawrth. Hyn eto er galluogi'r taliad gael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24. **Penderfynodd** y Cyngor yn unfrydol gefnogi'r camau gymerwyd gan y Cadeirydd.

## 133. MAINC YM MOTWNNOG

**Addawodd** Y Cynghorydd Glyn Roberts y byddai'n rhoi paent ar y fainc ym Motwnnog – diolchwyd iddo.

## 134. BLODAU I'R TYBIAU

**Addawodd** y Clarc y byddai'n gofyn am bris gan Dyddyn Sachau am flodau i'r tybiau.